



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Adolygiad blwyddyn ers cyflwyno'r diwygiadau i Asiantau Gorfodi a gyflwynwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007

Cvhoeddwvd 2 Ebrill 2018

Cynnwys

1.	Crynodeb	2
1.1.	Cefndir	2
1.2.	Canfyddiadau allweddol	2
2.	Rhagarweiniad	4
2.1.	Asiantau gorfodi a'r mathau o ddyledion a gesglir	4
2.2.	Y diwygiadau gorfodi	5
3.	Amcanion a methodoleg yr adolygiad	7
4.	Canlyniadau	9
4.1.	Proses gyson a thryloyw	9
4.2.	Hyfforddiant ac Ardystio	10
4.3.	Bondiau	11
4.4.	Trin dyledwyr	11
4.5.	Cwyno am ymddygiad asiantau gorfodi	16
4.6.	Cyfraddau adennill dyledion a chamau setlo	17
4.7.	Ffioedd a godir	20
5.	Casgliadau	23
	Atodiad A: Ffioedd asiantau gorfodi	24

1. Crynodeb

1.1. Cefndir

Mae'r adolygiad ôl-weithredu hwn yn gwerthuso'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007¹ ynghylch sut y mae asiantau gorfodi'n gweithredu a'r ffioedd a godir ganddynt. Gweithredwyd y diwygiadau yn Ebrill 2014 a phwrpas yr adolygiad yw asesu a ydynt yn gweithio mwy neu lai yn ôl y disgwyl flwyddyn ar ôl eu gweithredu ac a gafwyd unrhyw ganlyniadau anfwriadol o bwys.

Dechreuodd yr adolygiad yn fuan yn 2015 gan ddadansoddi amrywiaeth o ddata a holi barn rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys credydwr, y sector cynghori, asiantaethau eraill y llywodraeth a'r asiantau gorfodi eu hunain (fel yr eglurir yn yr adran fethodoleg).

1.2. Canfyddiadau allweddol

- Cytunodd bob un o'r rhanddeiliaid fod y diwygiadau wedi arwain at fwy o gysondeb a thryloywder gyda'r broses orfodi, oedd o'r blaen yn ddiffygiol. Mae'r ffurflenni a'r llythyrau safonol newydd yn egluro'n well i'r dyledwr o ran ble i ddod o hyd i gyngor ar drafferthion ariannol, gwybodaeth am eu hawliau a ble i gwyno.
- Y gyfran o ddyledion a orfodwyd yn llwyddiannus rhwng Ebrill 2014 ac Ebrill 2015 oedd 27% ar gyfer swyddogion gorfodi sifil a 33% ar gyfer swyddogion yr uchel lys, sy'n uwch na'r disgwyl pan ddyluniwyd y strwythur ffioedd newydd ac yn cynnig llinell sylfaen ar gyfer monitro pellach.
- Elfen bwysig o'r diwygiadau oedd strwythur penodedig newydd ar gyfer ffioedd gorfodi. Y bwriad oedd rheoli ffioedd rhy uchel a chryfhau'r cymhelliad i setlo ar y dechrau (yn y cam cydymffurfio) cyn bo angen trefnu ymweliad a symud nwyddau o'r eiddo. Yr arwyddion yw bod Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys² wedi llwyddo'n arbennig o dda i orfodi yn y cam cydymffurfio, gan ragori ar ddisgwyliadau o naw pwynt canran (roedd disgwyl i 1% o'r *holl warantau a gyflwynwyd* setlo yn y cam hwn, ond llwyddwyd i setlo 10%).

¹ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2007/15/contents>

² Mae'r diwygiadau hyn yn berthnasol i ddau brif grŵp o asiantau gorfodi, rhai sy'n casglu dyledion drwy writiau gan yr uchel lys (Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys (HCEO)) a rhai sy'n casglu mathau eraill o ddyledion (asiantau gorfodi sifil).

- Ar gyfer asiantau gorfodi sifil, mae gorfodi yn y cam cydymffurfio wedi bod yn is na'r disgwyl (setlodd 38% o *warantau a orfodwyd yn llwyddiannus* yn y cam cydymffurfio, o'i gymharu â darogan 50%). Gallai'r gwahaniaeth rhwng asiantau gorfodi sifil a rhai'r Uchel Lys yn hyn o beth fod yn rhannol oherwydd bod darogan yn gywir wrth ddylunio'r diwygiadau'n anodd, ond disgwyliwn i orfodi yn y cam cydymffurfio wella i'r grŵp hwn wrth i'r diwygiadau wreiddio.
- Drwy egluro beth yr ystyriwn i fod yn ymddygiad gorfodi annerbyniol, a chynnwys manylion cyswllt gwasanaethau cynghori ar lythyrau gorfodi, mae'r diwygiadau wedi rhoi mwy o eglurder i ddyledwyr o ran eu hawliau a sut i gwyno. Dengys y data a gasglwyd gan y sector cynghori fod rhai dyledwyr a chynghorwyr dyledion o'r farn bod ymddygiad ymosodol yn dal i ddigwydd, ac er nad yw'n realistig disgwyl i hyn ddiflannu'n llwyr, mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cymryd pryderon y sector cynghori o ddifrif a bydd yn rhoi sylw manwl i lefel a natur y cwynion wrth i'r diwygiadau ennill eu plwyf ymhellach.

2. Rhagarweiniad

2.1. Asiantau gorfodi a'r mathau o ddyledion a gesglir

Defnyddir asiantau gorfodi, oedd yn cael eu galw'n feiliaid o'r blaen, i gasglu dyledion heb eu talu ar ran credydwyr (yn cynnwys awdurdodau lleol, adrannau'r llywodraeth a chredydwyr preifat drwy ddyfarniadau mewn llys sirol). Mae ganddynt hawl gyfreithiol i symud a gwerthu nwyddau drwy warantau a gwritiau rheoli (y naill drwy'r llys sirol a'r llall drwy'r uchel lys) i dalu'r ddyled, ac i godi ffi ar y dyledwr.

Mae'r diwygiadau hyn yn berthnasol i ddau brif grŵp o asiantau gorfodi; rhai sy'n casglu gwritiau heb eu talu drwy'r uchel lys (y byddwn yn cyfeirio atynt fel Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys (HCEO) a rhai sy'n casglu bob math o ddyledion eraill (y byddwn yn cyfeirio atynt fel asiantau gorfodi sifil). Ar hyn o bryd mae tua 2,300 o asiantau gorfodi sifil³ ac ychydig dros 50 o Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys⁴ wedi cofrestru gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ).

Mae'r rhan fwyaf o asiantau gorfodi'n gweithio i gwmnïau preifat yn hytrach nag unigolion, ond rhaid i asiantau nawr gael tystysgrif unigol. Nid oes corff rheoleiddio ar gyfer asiantau gorfodi er bod cyrff masnach y medrant ymuno â nhw i gynnig arweiniad ar y ddeddfwriaeth, i drefnu hyfforddiant ac i ddelio gyda chwynion. Ar gyfer asiantau gorfodi sifil, mae'r Gymdeithas Gorfodaeth Sifil (CIVEA) a'r Gymdeithas Asiantau Gorfodi Sifil (CEAA). Rhaid i Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys fod yn aelodau o'u corff masnach sef Cymdeithas Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys (HCEO).

Nid oes gwybodaeth *fanwl* am union nifer yr achosion gorfodi oherwydd nid yw'r data'n cael ei gasglu'n ganolog a'i gofnodi'n gyson. Cynhyrchir peth gwaith gorfodi drwy'r llysoedd sirol a'r uchel lysoedd: os nad yw dyledwyr yn talu neu'n cydymffurfio â dyfarniad, gall y credydwr fynd i'r llys i ofyn am orchymyn gorfodi. Yn 2015, gwnaed 145,433 o geisiadau am orchymyn gorfodi yn y Llys Sirol a 53,874 yn yr Uchel Lys⁵.

Nid yw'r diwygiadau hyn yn berthnasol i asiantau sy'n gorfodi gwarantau drwy'r Llys Sirol oherwydd cyflogir hwynt gan GLITEM. Er eu bod yn dilyn yr un gweithdrefnau (sut y dylent gael mynediad i eiddo, etc), gweithwyr y goron ydynt, felly nid ydynt yn codi ffioedd ac nid oes angen iddynt fod yn ardystiedig. Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) hefyd yn cyflogi

³ Cofrestr Beiliaid Ardystiedig y Weinyddiaeth Cyfiawnder (Awst 2016)

⁴ Cymdeithas Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys (Awst 2016)

⁵ Chwarterolyn Ystadegau Cyfiawnder Sifil: <https://www.gov.uk/government/collections/civil-justice-statistics-quarterly>

asiantau gorfodi i gasglu dyledion treth incwm - eto, gweithwyr y goron ydynt ac nid yw'r adolygiad yn berthnasol iddynt.

2.2. Y diwygiadau gorfodi

Cyn y diwygiadau roedd dyledwyr fel arfer yn wynebu proses orfodi anghyson a heb fod yn ddigon tryloyw. Roedd y gyfraith ar bwerau asiantau gorfodi ac ar atafaelu a gwerthu nwyddau'n gymhleth ac wedi'i chynnwys mewn nifer o wahanol statudau, is-ddeddfwriaeth a chyfraith gyffredin, ac roedd gwahanol bwerau gorfodi ar gael ar gyfer gwahanol ddyledion. Roedd pryderon hefyd fod rhai asiantau gorfodi'n ymddwyn yn amhriodol, er enghraifft yn camddefnyddio eu pwerau i gael mynediad neu i atafaelu nwyddau, yn codi ffioedd rhy uchel ac yn defnyddio grym diangen.

Roedd y system gostau ar gyfer asiantau gorfodi hefyd yn gymhleth a phob pŵer gorfodi'n defnyddio gwahanol strwythur costau. Roedd rhai strwythurau wedi'u hymgorffori mewn statudau ac eraill yn bodoli dim ond mewn trefniadau cytundebol a luniwyd rhwng y cwmni gorfodi a'u cwsmeriaid.

Gweithredwyd y diwygiadau yn Ebrill 2014 yn dilyn cyfnod helaeth o ymchwil ac ymgysylltu⁶ a gweithredu Rhan 3 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 (Y Ddeddf TCE). Yr amcanion polisi'n fras oedd:

- Cymell yn erbyn gorfodi ymosodol: yn benodol, codi ffioedd rhy uchel a chymryd camau gorfodi cynamserol neu ddiangen.
- Cymell adennill dyledion yn gynt.
- Cyflwyno mesurau gwarchod rhag ymddygiad amhriodol gan asiantau gorfodi: yn benodol, ymddygiad bygythiol a chamddefnyddio awdurdod cyfreithiol.
- Symleiddio'r broses ar gyfer asiantau gorfodi, dyledwyr a chredydwyr.
- Darparu mesurau gwarchod priodol i ddyledwyr, yn enwedig pobl agored i niwed, ynghyd â thrydydd partion a chydberchnogion.
- Cynnal neu wella effeithlonrwydd gorfodi.
- Gwobrwyo asiantau gorfodi'n deg a digonol am y gwaith a wneir ganddynt.

⁶ Gweler <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-bailiff-action> am y manylion llawn.

Y mesurau penodol a gyflwynwyd o dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 oedd⁷:

- Cyflwyno cyfres syml o reolau'n nodi pryd y gall asiant gorfodi fynd i mewn i eiddo a pha nwyddau y medrant ac na fedrant eu cymryd.
- Un strwythur ffioedd yn nodi'n glir pa ffioedd y gellir eu codi ar ddyledwr ym mhob cam o'r broses orfodi.
- Proses ardystio newydd ar gyfer asiantau gorfodi i sicrhau eu bod yn bobl iawn ar gyfer y gwaith.
- Hyfforddiant gorfodol i sicrhau bod gan asiantau gorfodi'r sgiliau iawn i wneud eu gwaith.

Mae'r strwythur ffioedd penodedig mewn tri cham: 1) cydymffurfio, 2) gorfodi, 3) gwerthu (manyllion pellach yn Atodiad A). Bwriad y strwythur hwn oedd cryfhau'r cymhelliad i setlo yn y cam cydymffurfio cyn bo angen trefnu ymweliad a chymryd nwyddau. Mae'r dyledwr yn dal i orfod talu ffioedd ar ben y swm sy'n ddyledus, ond drwy setlo yn y cam cydymffurfio bydd llai o gostau ychwanegol yn cael eu codi ar y dyledwr a chamau mwy ymwithiol yn cael eu hosgoi. Er bod yr asiant gorfodi'n ennill llai yn y cam cydymffurfio, mae hefyd angen iddynt wneud llai o waith felly, at ei gilydd, dylai'r asiant gorfodi er hynny dderbyn tâl ariannol teg.

⁷ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2007/15/contents>

3. Amcanion a methodoleg yr adolygiad

Cwmpas gwreiddiol yr adolygiad blwyddyn oedd canolbwyntio ar ganlyniadau brys anfwriadol.

Yn benodol:

- A yw'r asiantau gorfodi'n cydymffurfio â'r rheolau newydd ar ymddygiad ymosodol.
- Unrhyw newid mawr yn y cyfraddau adennill dyledion.
- Gorfodi y dylid fod wedi'i osgoi y mae dyledwyr / credydwyr yn talu amdano.
- Unrhyw faich diangen y mae'r diwygiadau yn ei roi ar randdeiliaid allweddol.
- Unrhyw ganlyniadau anfwriadol eraill sy'n effeithio'n gadarnhaol a negyddol ar y grwpiau dan sylw.

Er nad oedd bwriad i'r adolygiad blwyddyn werthuso'r gyfundrefn ffioedd yn systematig, yn ymarferol mae'n amhosib gwahanu'r ffioedd yn llwyr o'r effeithiau eraill oherwydd mae'r ymddygiad wedi'i yrru'n rhannol gan y cymhelliad ariannol. Felly mae'r adolygiad blwyddyn yn gwneud mwy na'r gofyn sylfaenol i asesu'r canlyniadau anfwriadol ac yn ceisio canfod:

- Unrhyw wallau amlwg yn y strwythur ffioedd sydd efallai'n gyrru'r effeithiau negyddol.
- Unrhyw arwyddion clir bod asiantau gorfodi'n ennill tâl gormodol neu ddim yn cael eu talu'n deg.

Oherwydd na chesglir y data ar ddyledion a orfodir yn ganolog ar draws gwahanol ddyledion a chredydwyr, bu'n rhaid defnyddio gwahanol ddata a gasglwyd gan wahanol randdeiliaid.

Roeddent yn cynnwys:

- Data gan y sector cynghori a'u barn am brofiadau dyledwyr ers y diwygiadau. Cyflawnodd nifer o asiantaethau cynghori eu harolygon eu hunain gyda chynghorwyr dyledion a chwsmeriaid, sydd naill ai wedi'u cyhoeddi neu eu cynnwys fel ystadegau cyfunol yn yr adolygiad.
- Cais am adborth ysgrifenedig gan wahanol grwpiau rhanddeiliaid ar effaith a chanlyniadau anfwriadol y diwygiadau. Roedd y cwestiynau wedi'u teilwrio i'r gwahanol grwpiau, ond derbyniwyd ymatebion cyffredinol hefyd. Gwahoddwyd grwpiau credwyr, asiantaethau cynghori ac asiantaethau gorfodi i ymateb ar ddau bwynt yn ystod yr adolygiad, unwaith ychydig cyn mis Ebrill 2015, ac eto dros yr haf. Derbyniwyd wyth ymateb gan gredydwyr, yn cynnwys awdurdodau lleol a chyrrff cynrychiadol fel Ffederasiwn Eiddo Prydain. Derbyniwyd 16 ymateb gan asiantau gorfodi a'u grwpiau masnach, dau gan y sector cynghori ac un ymateb gan y farnwriaeth hefyd. Roedd y cais am adborth yn rhoi cyfle i

wahanol rhanddeiliaid leisio pryderon na fedrant efallai eu maintioli'n iawn, ar sail gwybodaeth a phrofiad ymarferwyr yn gweithio yn y maes.

- Ymarfer penodol i gasglu data meintiol gan yr asiantau gorfodi eu hunain;
 - Derbyniwyd data cyfunol gan asiantau gorfodi sifil ar ran 14 o asiantaethau, yn ymwneud â 1.2m o warantau a gyflwynwyd ac a gaewyd rhwng Ebrill 2014 ac Ebrill 2015. Roedd y data'n cynnwys gwybodaeth am nifer y gwarantau a'u gwerth, ym mha gam y setlwyd yr achosion a'r ffioedd ar gyfartaledd.
 - Derbyniwyd data tebyg hefyd gan ddeg o Asiantaethau Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys, yng nghyswllt tua 32,000 o warantau a gyflwynwyd ac a gaewyd rhwng Ebrill 2014 ac Ebrill 2015.
- Cynhaliwyd gweithdai gyda chynrychiolwyr o'r sector cynghori a chyrrff masnach yr asiantaethau gorfodi i wirio'r dehongliad o'u data meintiol ac i drafod rhesymau posib am y canfyddiadau.

Derbyniodd yr adolygiad gyhoeddusrwydd drwy gyflwyniadau a datganiadau ysgrifenedig yng nghynadleddau'r rhanddeiliaid ac mewn cyfarfodydd perthnasol eraill ar draws y wlad, yn eu hannog i gysylltu â'r MoJ gydag adborth neu ganlyniadau anfwriadol y diwygiadau. Gofynnwyd i gyrrff cynrychiadol annog eu haelodau i gymryd rhan hefyd. Postiwyd hysbysebion ar gyfer yr adolygiad yn y cyfryngau arbenigol, er enghraifft ar y Fforwm Gorfodaeth Sifil Awdurdod Lleol.

Roedd casglu, crynhoi a dadansoddi'r wybodaeth yn dipyn o waith ac er bod gan y data ei gyfyngiadau a'i gafeatau a nodir ochr yn ochr â'r canlyniadau perthnasol, gwnaed pob ymdrech i gasglu barn mor eang a chytbwys â phosib gan y rhanddeiliaid.

4. Canlyniadau

4.1. Proses gyson a thryloyw

Un o brif uchelgeisiau'r diwygiadau oedd darparu mwy o safoni a thryloywder, o ran y ffioedd a godir a'r broses orfodi ei hun. Yn ogystal â gweithredu strwythur ffioedd cyson, mae llythyrau a rhybuddion safonol hefyd yn eu lle i egluro'r broses i ddyledwyr, pa ffioedd y bydd yn rhaid eu talu, eu hawliau a ble i gael cyngor pellach. Rhaid i'r llythyr cydymffurfio cychwynnol gael ei ddilyn gan saith diwrnod clir (ac eithrio dydd Sul a gwyliau banc) ar gyfer talu neu i lunio cynllun talu, cyn symud ymlaen at y cam gorfodi.

Ar sail adborth ansoddol gan randdeiliaid, yr argraff gyffredinol oedd bod y mesurau hyn wedi llwyddo i wella ymwybyddiaeth, egluro'r prosesau a chyfeirio pobl ymlaen at gyngor priodol. Mae llythyrau a rhybuddion safonol ac unffurf yn atal asiantaethau rhag anfon rhybuddion ymosodol neu gamarweiniol at bobl. Mae'r rhybuddion hefyd yn disgrifio'r gyfundrefn ffioedd a gall dyledwyr wirio'r ffioedd ar wefan gov.uk⁸ neu wefan Cyngor ar Bopeth⁹, i gadarnhau eu bod yn gywir ac i weld sut y mae'r ffioedd yn cynyddu os nad yw'r dyledwr yn gwneud rhywbeth.

Yn ystod ymgynghori, codwyd rhai pethau oedd angen eglurder yn eu cylch, gan gynnwys:

- Nid oes rhybudd unffurf ar gyfer cam yr ymweliad gorfodi (h.y. y llythyr sy'n cael ei adael gan yr asiant gorfodi os nad yw'r dyledwr yn bresennol). Dywedodd rai asiantaethau cynghori y clywsant am enghreifftiau o bostio llythyrau bygythiol neu gamarweiniol drwy'r drws yn y cam hwn.
- Ers y diwygiadau, dim ond os yw cerbyd ar dir ym mherchnogaeth y dyledwr neu ar y briffordd gyhoeddus y caiff asiant gorfodi ei atafaelu. Nid oes diffiniad o briffordd gyhoeddus yn y rheoliadau ac o'r herwydd mae rhai dyledwyr wedi gofyn am gyngor ar sut i osgoi atafaelu eu cerbyd.
- Teimlai rhai o'r sector cynghori fod y geiriad ar beidio â chodi ffioedd (rheoliad 12 yn y diwygiadau) yn ddryslyd. Heb ddiffiniad o berson agored i niwed, meddent, mae penderfynu peidio â chodi ffi'n dibynnu'n llwyr ar ddisgresiwn yr asiant gorfodi. Roeddent hefyd yn cwestiynu a ddylai'r rheoliad ymestyn i nwyddau heb fod o dan reolaeth, neu i'r cam cydymffurfio cychwynnol.
- Lleisiodd rai o'r sector cynghori, ac asiantau gorfodi, bryderon nad oedd yr heddlu'n gwbl ymwybodol eto o'r rheoliadau newydd a'r pwerau sydd gan asiantau gorfodi.

⁸ <https://www.gov.uk/your-rights-bailiffs/what-you-can-do-when-a-bailiff-visits>

⁹ <https://www.citizensadvice.org.uk/debt-and-money/action-your-creditor-can-take/bailiffs/>

- Cyfeiriodd y sector cynghori at achosion lle dywedodd yr heddlu wrth dyledwr am adael i'r asiant gorfodi gael mynediad i'w heiddo pryd nad oedd gan yr asiant hawl awtomatig i gael mynediad.
- Cyfeiriodd asiantau gorfodi at achosion lle nad yw'r heddlu'n deall y pwerau sydd ganddynt a'u bod yn gwrthod eu cefnogi pan fyddant yn gwneud ymgais gyfreithiol i gael mynediad i eiddo i atafaelu nwyddau (h.y. lle cafwyd mynediad o'r blaen ac mae cytundeb nwyddau a reolir yn ei le).

Mater arall a godwyd gan y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid, nid o ganlyniad uniongyrchol i'r diwygiadau ond efallai wedi'i waethygu gan y cynnydd mewn tryloywder, yw'r holl wefannau cyfryngau cymdeithasol sy'n honni y medrant helpu dyledwyr i osgoi camau gorfodi. Yn aml iawn maen nhw'n cynnwys gwybodaeth gamarweiniol neu anghywir am y camau y gall dyledwyr eu cymryd a allai, mewn gwirionedd, arwain at godi ffioedd uwch drwy gychwyn y cam gorfodi nesaf. Mae rhai fforymau'n annog dyledwyr i wneud cwynion a hawliau ffug am eu statws ac ambell un yn eu hannog i fod yn ymosodol gyda'r asiantau.

Dengys data gan GLITEM, a dderbyniwyd gan yr asiantau gorfodi a ddefnyddir ganddynt i gasglu dirwyon troseddol, gynnydd o 44% yn nifer y cwynion (heb gynnwys ceisiadau am wybodaeth) rhwng 2013/14 a 2014/15, o 1,635 i 2,361¹⁰. Dim ond cyfran fach o'r rhain sy'n cael eu hategu, cyfran a arhosodd yn gyson ar tua 9% (65 o gwynion ychwanegol wedi'u hategu rhwng 2014/15 a 2015/16). Mae GLITEM yn priodoli'r cynnydd i fwy o gyfeirio ymlaen ac i'r cynnydd yn nifer y gwefannau ar-lein sy'n annog pobl i wneud cwynion blinderus¹¹.

4.2. Hyfforddiant ac Ardystio

Mae'r diwygiadau wedi cyflwyno proses hyfforddi ac ardystio newydd a ddisgrifir yn Rheoliadau Ardystio Asiantau Gorfodi 2014. Cyn hyn nid oedd unrhyw hyfforddiant safonol ar gyfer asiantau gorfodi.

Ers cyflwyno'r cyrsiau hyfforddi a'r broses ardystio ddilynol ar ôl gweithredu'r diwygiadau, efallai na fyddai'r newid mewn ymddygiad wedi dod i'r fei ar ôl dim ond blwyddyn. Dywedodd nifer o randdeiliaid o'r diwydiant gorfodi eu bod wedi gwneud ymdrechion yn ystod y flwyddyn i wella eu cyrsiau hyfforddi, gan gynnwys gweithio gyda'r sector cynghori ac arbenigwyr eraill fel Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, i wella sut y caiff dyledwyr eu trin a'r elfen agored i niwed.

¹⁰ Gwybodaeth Reoli gan GLITEM

¹¹ Dylid nodi mai adborth ansoddol yw hwn

Felly, er y byddem yn dal i ddisgwyl gweld gwelliant sylweddol yn safon yr ymddygiad, dylai'r effaith lawn ddod yn fwy amlwg unwaith i fwy o amser fynd heibio.

Yn ôl asiantau sy'n arbenigo mewn adennill dyledion rhent masnachol, mae'r broses yn fwy cymhleth na llawer o ddyledion eraill a gesglir gan asiantau heb fod yn rhai'r Uchel Lys, ac nad yw'r hyfforddiant yn ddigon manwl ar gyfer asiantau gorfodi sy'n delio â'r math yma o ddyled oherwydd nad yw'n cynnwys y Ddeddf Ansofedd¹², y gyfraith cwmnïau neu ddeddfwriaeth landlord a thenant.

Mae rhai asiantau gorfodi wedi cael trafferthion yn gwneud cais am eu tystysgrif oherwydd bod angen cwblhau gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) (y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) o'r blaen) yn y mis cyn y gwrandawriad ardystio. Oherwydd bod gwiriadau DBS yn gallu cymryd gwahanol amser i'w prosesu (rhwng un wythnos a thros fis), mae risg na fyddent yn barod cyn y gwrandawriad.

4.3. Bondiau

Rhaid i asiantau gorfodi gyflwyno bond sicrwydd o £10,000 wrth wneud cais am dystysgrif, a'i gynnal tra bo'r dystysgrif yn para. Yn ymarferol, cyflogwr yr asiant gorfodi sydd fel arfer yn cyflwyno'r bond. Yn ôl adborth gan y farnwriaeth, mae rhai asiantaethau gorfodi'n cynnig bondiau nad ydynt yn para dros y cyfnod ardystio i gyd. Nid yw'n digwydd yn aml gydag ardystiad newydd ond mae'n bur gyffredin wrth adnewyddu ardystiad oherwydd mae gan yr asiant yn aml fond tan ddyddiad penodol nad yw'n cyd-ddigwydd â'r gwrandawriad adnewyddu. Mae gan yr asiant gorfodi ddyletswydd i sicrhau bod y bond wedi'i adnewyddu ac yn ei le bob tro y mae'n cymryd camau gorfodi, ac mae'r dystysgrif yn annilys os nad yw'r bond yn ei le.

4.4. Trin dyledwyr

4.4.1. Ymddygiad Asiantau Gorfodi

Er y dyfeisiwyd y diwygiadau i gymell dyledwyr i setlo dyled yn gynnar, bydd llawer yn anochel yn symud ymlaen i'r camau gorfodi a gwerthu pan fydd dyledwyr yn dod wyneb yn wyneb ag asiantau gorfodi. Cyn y diwygiadau, derbyniwyd cwynion – yn enwedig rhai a leisiwyd drwy'r sector cynghori – bod rhai asiantau gorfodi'n ymddwyn mewn ffordd ymosodol neu gamarweiniol. Yn benodol:

¹² www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/39/pdfs/ukpga_20000039_en.pdf

- Camddefnyddio awdurdod cyfreithiol, e.e. bygwth defnyddio grym, cael mynediad i eiddo'n amhriodol, bygwth cymryd nwyddau nad oes ganddynt hawl i'w cymryd neu sy'n werth mwy na'r ddyled.
- Codi ffioedd gormodol, e.e. codi am "rith" ymweliadau neu godi am weithgareddau na ddigwyddodd.
- Ymddygiad bygythiol a defnyddio grym yn ddiangen.

Ers gweithredu'r diwygiadau mae rhanddeiliaid o'r sector cynghori wedi adrodd mwy o gyswllt gan eu cwsmeriaid yn ymwneud ag asiantau gorfodi. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth reoli'n caniatáu gwahanu'r cwynion oddi wrth ymholiadau cyffredinol am gamau gorfodi, y byddai disgwyl iddynt fod wedi cynyddu'n dilyn cyflwyno llythyrau safonol (sy'n cyfeirio dyledwyr ymlaen yn benodol at wasanaethau cynghori).

Yn ôl arolwg gan StepChange (un o'r asiantaethau cynghori a restrir ar y llythyr cydymffurfio), dywedodd 47% o'r cwsmeriaid a holwyd fod camau gorfodi wedi eu hysgogi i ofyn am gyngor dyledion. Gall gwneud hyn helpu pobl i ddelio nid yn unig â'r broblem wrth law, gall hefyd fod yn gam cadarnhaol tuag at ddelio â gwraidd eu problemau dyledion: Yn ôl ymchwil gan y MoJ (2015)¹³ roedd cywilydd a gorbryderu'n aml yn rhwystro pobl mewn dyled rhag rhoi sylw i'r broblem ac, yn ôl y rhai a holwyd, roedd eu cyfeirio ymlaen at gyngor a chymorth wedi eu helpu i wneud hynny ynghyd â gwybodaeth i gytuno ar gynllun ad-dalu.

Roedd tystiolaeth bellach, sydd wedi'i chynnwys mewn isadrannau eraill, yn ceisio asesu ymddygiad asiantau gorfodi o safbwynt y dyledwr. Daeth y dystiolaeth yn bennaf gan y sector cynghori, yn cynnwys canlyniadau pedwar arolwg:

1. Arolwg o Gyngorwyr: arolwg ar y cyd o 209 o gynghorwyr dyledion a wnaed ar ran Cyngor ar Bopeth, AdviceUK, National Debtline, Business Debtline, Sefydliad y Cynghorwyr Arian, Elusen Dyledion StepChange ac Ymddiriedolaeth Zacchaeus 2000 rhwng 1 Ebrill 2015 a'r 1 Mehefin 2015. Mae'r arolwg heb ei gyhoeddi ond cyflwynwyd data a chrynodeb o'r canfyddiadau i'r MoJ.

¹³ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/484182/varying-paths-to-justice.pdf

2. Arolwg gan StepChange o 1087 o gwsmeriaid (dyledion treth y cyngor yn unig) a gynhaliwyd rhwng 4-15 Chwefror 2015. Roedd 489 (45%) o'r cwsmeriaid wedi dod ar draws asiantau gorfodi o ganlyniad i'w dyledion¹⁴.
3. Ail arolwg gan StepChange o 1,794 o gwsmeriaid a ddaeth at yr elusen am gyngor yn Ch3/4 2015. Gofynnwyd iddynt sut yr effeithiodd eu cyswllt â chredydwy, casglwyr dyledion a beiliaid ar eu profiad o fod mewn dyled¹⁵.
4. Arolwg Cwsmeriaid Cyngor ar Bopeth, wedi'i gysylltu i dudalennau'n cynnwys cyngor ar asiantau gorfodi, a fu'n rhedeg ar eu gwefan ers Medi 2013. Derbyniodd y MoJ ddata gan CAB ar ymatebion i'r arolwg cyn ac ar ôl cyflwyno'r diwygiadau.

Mae rhai cafeatau'n gysylltiedig â'r arolygon hyn, yn benodol mai dim ond dyledwyr a gysylltodd â'r asiantaethau cynghori perthnasol y maen nhw'n ei gynrychioli, felly ni ellir eu cymhwyso i'r holl bobl a ddaeth i gysylltiad ag asiantau gorfodi. O fewn yr arolygon ni chafodd y samplau eu dewis ar hap yn llwyr ac at ei gilydd mae'r ymatebion yn cyflwyno ochr y dyledwr i'r sefyllfa. Fodd bynnag, dyma'r dystiolaeth orau o brofiadau dyledwyr o gyswllt ag asiantau gorfodi ac er na ellir cyffredinoli'r canlyniadau'n llawn, er hynny rhaid cymryd y wybodaeth ddangosol am ymddygiad a chydymffurfio o ddifrif. Yn enwedig o ystyried y sefyllfa oedd ariannol a chymdeithasol anodd a brofir yn aml pan fydd gorfodi'n digwydd.

Oherwydd bod rhai o'r diwygiadau perthnasol – e.e. hyfforddiant – wedi'u cyflwyno ar ôl eu gweithredu, efallai na fyddai'r newid mewn ymddygiad wedi dod i'r fei ar ôl dim ond blwyddyn. Yn ogystal â chyflwyno tystiolaeth o'r sefyllfa bresennol, gallai'r data hefyd gynnig meincnod ar gyfer monitro parhaus.

4.4.2. Cyfnod Rhybudd Saith Diwrnod

Ar ôl cyflwyno rhybudd gorfodi, rhaid rhoi saith diwrnod clir bellach (ac eithrio dydd Sul a gwyliau banc) ar gyfer setlo cyn symud ymlaen at y cam gorfodi. Roedd gan randdeiliaid o'r sector cynghori bryderon i ddechrau na fyddai saith diwrnod o rybudd yn ddigon hir i roi amser i ddyledwyr setlo eu dyledion. Ond i'r gwrthwyneb, roedd asiantaethau gorfodi'n poeni y gallai'r cyfnod rhybudd o saith diwrnod roi amser i ddyledwyr werthu neu guddio pethau y gellid eu hatafaelu i dalu eu dyledion. Yn ymarferol roedd llawer o'r adborth gan asiantau gorfodi, a chan aelodau awdurdod lleol y grŵp credydwy, yn disgrifio system lle mae'r credydwy yn mynnu ar fwy o amser i gydymffurfio na'r lleiafswm a ganiateir gyda llawer yn gofyn i asiantau

¹⁴ Mae canlyniadau llawn yr arolwg wedi eu cyhoeddi ac ar gael yn:

<http://www.stepchange.org/Portals/0/documents/media/reports/Council-tax-debt-report-2015.pdf>

¹⁵ <https://www.stepchange.org/policy-and-research/creditor-and-debt-collector-conduct.aspx>

gorfodi adael i bythefnos neu dair wythnos fynd heibio ar ôl cyflwyno'r llythyr cydymffurfio, cyn mynychu'r eiddo.

Cafwyd enghreifftiau gan y sector cynghori o achosion lle'r oedd y lleiafswm amser wedi'i roi i dalu dyledion, ynghyd ag adroddiadau nad yw rhai dyledwyr yn cofio derbyn y llythyr cydymffurfio cyn i'r asiant gorfodi ddod i'w heiddo.

Un mater a godwyd gan gredydwyr ac asiantau sy'n arbenigo mewn dyledion rhent masnachol yw bod rhai dyledwyr yn barod i dalu'r ffi gydymffurfio o £75 fel opsiwn rhatach na threfnu benthyciad neu orddrafft i dalu'r ddyled. Maent yn gwybod bod yn rhaid i'r credydwr wneud cais am y gorchymyn gorfodi, a phan fydd y llythyr cydymffurfio'n cyrraedd bod ganddynt saith diwrnod o rybudd. Mae hyn yn achosi rhai landlordiaid i fynd i ddyled eu hunain.

4.4.3. Ymddygiad asiantau unigol

Roedd yr arolwg o gynghorwyr uchod yn holi cynghorwyr am eu hargraff o ymddygiad beiliaid, ar sail eu hatgofion o brofiadau cwsmeriaid cyn ac ar ôl y diwygiadau. Dengys Tabl 1 eu hymatebion. Ar draws yr holl categorïau, roedd nifer sylweddol o gynghorwyr o'r farn fod ymddygiad wedi gwella, yn enwedig yn y categori "casglu'r ffioedd cywir" lle'r oedd 52% yn credu bod ymddygiad bellach wedi gwella. Ar gyfer y categorïau eraill, roedd mwy o gynghorwyr o'r farn fod yr ymddygiad tua'r un fath (dylid nodi bod 'tua'r un fath' yn cymharu â phrofiad blaenorol a allai fod yn gadarnhaol neu'n negyddol gan ddibynnu ar yr unigolyn). Ar draws y categorïau roedd nifer sylweddol hefyd a gredai fod ymddygiad wedi gwaethygu, yn enwedig yng nghyswllt defnyddio ymddygiad bygythiol (28%) a thrin cwsmeriaid agored i niwed (31%).

Tabl 1 – Ymatebion Arolwg Cynghorwyr i: “Ym mha feysydd y mae arferion beiliaid / asiantau gorfodi wedi gwella / gwaethygu ers Ebrill 2014?” Cyfanswm yr ymatebion: 208

Arferion Asiantau Gorfodi	Ymddygiad wedi gwaethygu %	Ymddygiad heb newid %	Ymddygiad wedi gwella %	Ddim yn gwybod %
Defnyddio ymddygiad bygythiol	28%	47%	19%	6%
Codi ffioedd amhriodol	15%	28%	52%	5%

Cymryd nwyddau amhriodol	12%	47%	22%	19%
Glynu wrth hawliau mynediad	15%	54%	23%	8%
Trin cwsmeriaid agored i niwed	31%	44%	19%	6%

Gofynnodd yr arolwg cynghorwyr a oeddent wedi cael profiad o enghreifftiau o ymddygiad ymosodol neu gamarweiniol gan yr asiantaethau gorfodi y daethant ar eu traws yn rheolaidd. Credai 63% o'r cynghorwyr fod y cwmni yr oeddent yn dod ar eu traws amlaf wedi dangos enghreifftiau o ymddygiad ymosodol neu fygythiol tuag at gwsmeriaid y sector cynghori.

Yn ôl yr arolwg cwsmeriaid cyntaf gan StepChange (rhif 2 ar y rhestr uchod), dywedodd 30% (130) o'r cwsmeriaid a holwyd fod yr asiant gorfodi wedi bygwth defnyddio grym i gael mynediad i'w heiddo y tro cyntaf iddynt ymweld. Dywedodd 11% (49) o'r rhai a holwyd fod yr asiant wedi ymweld â'u cartref cyn 6am neu ar ôl 9pm. Yn ôl yr ail arolwg cwsmeriaid gan StepChange (rhif 3 ar y rhestr), teimlai 50% o'r cwsmeriaid y cysylltodd beiliaid â nhw y cawsant eu trin yn annheg.

Roedd Cyngor ar Bopeth hefyd wedi holi am ymddygiad ymosodol fel rhan o'u harolwg ar-lein o gwsmeriaid. Roedd tua chwarter o'r rhai a ymatebodd, cyn ac ar ôl y diwygiadau, wedi adrodd profiad o ymddygiad ymosodol gan asiantau gorfodi.

4.4.4. Trin dyledwyr agored i niwed

Pan fydd asiant gorfodi'n dod i gysylltiad â dyledwr agored i niwed, mae'n ofynnol iddynt fynd yn ôl at y credydwr i ofyn am gyngor ar beth i'w wneud. Disgwylir i'r credydwr yna ymchwilio i'r honiad bod y person yn agored i niwed ac atal y camau gorfodi.

O dan y diwygiadau, rhaid i bob asiant gorfodi ddangos gwybodaeth o'r gyfraith, gofal cwsmeriaid a sut i ddelio â sefyllfa o wrthdaro ac adnabod amgylchiadau agored i niwed. Gwaherddir asiantau gorfodi rhag mynd i mewn i eiddo lle mae'r dyledwr yn blentyn dan 16 oed neu os plentyn neu bobl agored i niwed yw'r unig rai sy'n bresennol yn yr eiddo. Oherwydd y trafferthion hysbys o ddiffinio agored i niwed, ac y gallai llunio rhestr benodol eithrio rhai dyledwyr, nid oedd y Ddeddf yn cynnwys diffiniad penodol.

Yn ôl yr adborth gan asiantau gorfodi, gwnaed ymdrechion sylweddol ganddynt i ddelio ag achosion agored i niwed, gyda'r cwmnïau mwyaf wedi sefydlu timau lles dynodedig i ddelio ag achosion o'r fath. Mae enghreifftiau o arferion gorau'n cynnwys cyrsiau hyfforddi wedi'u teilwrio'n cynnwys modiwlau agored i niwed, wedi'u datblygu drwy ymgynghori â'r sector cynghori.

Drwy'r broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid, soniodd yr asiantau gorfodi a'r credydwy'r am y cynnydd mewn honiadau o fod yn agored i niwed. Y rhesymau am y cynnydd yn ôl yr ymarferwyr oedd:

- Mwy o dryloywder ac ymwybyddiaeth o'r broses orfodi, gan helpu rhai na fyddent o'r blaen wedi sylweddoli y dylent dderbyn rhyw fath o warchodaeth oddi wrth y broses orfodi.
- Mwy o bobl agored i niwed yn wynebu'r broses orfodi, oherwydd y newid i ddemograffeg y dyledwyr a'r cymysgedd o warantau a orfodir. Yn ôl gwaith ymchwil a gyhoeddwyd gan y sector cynghori, mae llai o gwsmeriaid gyda dyledion credyd defnyddwyr a mwy'n cysylltu ynghylch dyledion treth y cyngor¹⁶.
- Yr argraff sydd gan rai asiantau gorfodi yw bod mwy o ymwybyddiaeth wedi cynyddu nifer yr honiadau blinderus o fod yn agored i niwed, gan honni eu bod yn aml yn derbyn llythyrau templed yn union yr un fath y gellir eu lawrlwytho o fforymau a gwefannau sy'n cynghori pobl ar sut i osgoi camau gorfodi. Gallai'r math yma o dactegau gynyddu eto, ond mae'n anodd eu mesur ac efallai bod camddefnyddio'r broses gan rai dyledwyr anonest yn un o sgil-ffeithiau'r warchodaeth ychwanegol a roddir i rai sydd wir ei angen arnynt.

4.5. Cwyno am ymddygiad asiantau gorfodi

Yn ystod y trafodaethau gyda rhanddeiliaid, cyfeiriodd rai o'r sector cynghori at y drafferth y mae rhai dyledwyr yn ei chael gyda gwneud cwyn yn erbyn asiant gorfodi. Er ei bod yn bosib cwyno'n uniongyrchol i'r asiantaeth neu ei chorff masnach, fel arfer caiff dyledwyr eu cyfeirio at weithdrefn llys i unioni unrhyw gam¹⁷. Mae'r llys yn ystyried cwynion a gallai benderfynu, ar sail y papurau neu mewn gwrandawriad, i osod sancsiynau neu dynnu tystysgrif yr asiant oddi arnynt os yw'r cwyn yn llwyddiannus. Yn ôl y sector cynghori, mae gan lawer o'r dyledwyr sy'n cysylltu â nhw incwm a dealltwriaeth gyfreithiol isel ac yn gyndyn o fynd drwy'r llys rhag ofn iddynt achosi costau ychwanegol a pheidio â gallu fforddio cyngor cyfreithiol.

¹⁶ <http://www.stepchange.org/Portals/0/documents/media/reports/Council-tax-debt-report-2015.pdf>

¹⁷ <https://www.gov.uk/your-rights-bailiffs/how-to-complain-about-a-bailiff>

Yn ôl arolwg cyfunol y sector cynghori (rhif 1 ar y rhestr arolygon) roedd 35% o'r ymatebwyr wedi gwneud un cwyn ffurfiol o leiaf am arferion beiliaid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. O'r rhain, roedd 89% wedi cwyno'n uniongyrchol i gwmni a 43% i gredydwr. Er y teimlai 19% fod eu profiadau, ar y cyfan, wedi bod yn gadarnhaol, dywedodd 43% y cawsant brofiadau cymysg a theimlai 38% eu bod, ar y cyfan, wedi bod yn negyddol.

Un o fwriadau'r diwygiadau oedd lleihau unrhyw or-reoleiddio ar fusnesau a gwarchod pobl agored i niwed yn effeithiol. Wrth ymgynghori'n wreiddiol ar ddyluniad y diwygiadau, roedd rhai grwpiau trydydd sector yn dadlau y dylai'r fframwaith rheoleiddio oedd mewn golwg fynd ymhellach. Byddai'n well ganddynt weld rheoleiddiwr annibynnol yn cael ei gyflwyno meddent, a fyddai'n gosod safonau ardystio a delio gyda chwynion haen gyntaf (e.e. ombwdsmon). Yr adborth gan y sector cynghori yw nad ydynt wedi newid eu sefyllfa, gan deimlo bod angen mwy o reoleiddio i sicrhau arferion da cyson.

4.6. Cyfraddau adennill dyledion a chamau setlo

Fel y nodwn yn gynharach yn yr adroddiad hwn, aeth yr adolygiad y tu hwnt i'r gofyniad blwyddyn sylfaenol. Roedd hefyd yn ceisio deall y gwallau amlwg yn y strwythur ffioedd ac Unrhyw arwyddion clir bod asiantau gorfodi'n ennill tâl gormodol neu ddim yn cael eu talu'n deg.

Yn ogystal â chymell talu'n fuan, mae'n bwysig nad yw'r diwygiadau'n arwain at sefyllfa lle mae gorfodi'n llai effeithiol a hynny er anfantais i gredydwr. Gall credydwr, llawer ohonynt yn unigolion neu'n fusnesau bach yn aml, ddiweddef cyni ariannol difrifol os na thelir dyledion. Os ydynt yn teimlo nad yw camau gorfodi drwy'r sianeli ffurfiol yn effeithiol, mae'n taseilio hyder yn y gyfraith a'r system gyfiawnder, ac yn achos cyrff cyhoeddus defnyddir yr incwm o dreth y cyngor a ffrydiau refeniw eraill i ariannu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Er mwyn asesu adennill dyledion yn y gwahanol gamau, cafodd ymarfer helaeth ei gyflawni gydag asiantau gorfodi sifil ac Asiantau Gorfodi'r Uchel Lys drwy eu cyrff masnach gan gasglu gwybodaeth am dros 1.2m o warantau a gyflwynwyd ers gweithredu'r diwygiadau. Roedd hyn yn cynnwys data ar nifer y gwarantau am wahanol ddyledion, a'u gwerth, cynnydd yr achosion drwy'r gwahanol gamau, a'r ffioedd cyfartalog a godwyd.

Mae gan y data rai cyfyngiadau, yn enwedig nad yw'r holl asiantau wedi cofrestru gyda chorff masnach a hefyd bod cyflwyno'r wybodaeth yn wirfoddol. Felly nid yw'n ymarfer cyflawn gan

dueddu i fod wedi'i nodweddu'n drymach gan yr asiantaethau sydd â chysylltiadau cryfach i'w corff masnach. Oherwydd bod y data'n ymdrin dim ond â'r cyfnod yn syth ar ôl cyflwyno'r diwygiadau, nid yw'r effeithiau llawn yn debygol o gael eu gweld eto - er enghraifft, yn ôl grwpiau credydwr gall gymryd mwy o amser i ddyledwyr mynych brofi'r ffioedd uwch a chael eu darbwyllo i dalu'n gynt y tro nesaf. Er hynny mae'r data'n darparu lefel newydd o wybodaeth am ddyledion a orfodir sy'n fwy na'r wybodaeth oedd ar gael pan ddyluniwyd y diwygiadau.

Cyn gweithredu, y darogan oedd y byddai tua 20% o ddyledion yn cael eu setlo (diffinnir setlo fel achos wedi'i gau gan y credydwr ar ôl cael ei dalu neu ei dalu'n rhannol). Dengys y data ôl-weithredu a dderbyniwyd gan asiantau gorfodi fod 27% o ddyledion yn cael eu setlo gan asiantau gorfodi sifil, a 33% gan Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys, ac er y gallai fod ffactorau eraill sy'n cyfrif am hyn ar wahân i'r diwygiadau (e.e. newidiadau yn y farchnad a'r economi), mae'n awgrymu nad yw cyfraddau casglu'n gyffredinol wedi dioddef.

Pan ddyluniwyd y diwygiadau, y darogan hefyd oedd y byddai tua 50% o achosion asiantau gorfodi sifil a fyddai'n setlo yn gwneud hynny yn y cam cydymffurfio. Dengys y data gan asiantau gorfodi sifil fod 38% o achosion wedi eu setlo ar ôl blwyddyn, gan amrywio fymryn yn ôl gwahanol ffrydiau dyledion (tabl 2). Fodd bynnag, nid oeddem yn disgwyl i 50% gael eu setlo ar ôl blwyddyn oherwydd y cyfnod gwreiddio.

Wrth ymgysylltu â'r rhanddeiliaid, dywedodd llawer o'r asiantaethau gorfodi eu bod wedi newid eu harferion gweithio i wella eu llwyddiant gyda chasglu dyledion yn y cam cydymffurfio, er enghraifft drwy ddarparu cyfleusterau canolfan alwadau ychwanegol a mwy o staff cefn swyddfa i ddelio gyda dyledwyr dros y ffôn a'r e-bost. Er i hyn achosi costau sefydlu sylweddol, mae'r asiantaethau'n gobeithio gallu gwrthbwysu'r gost dros amser drwy gael mwy o ddyledwyr i setlo'n gynnar ac arbed y gost o drefnu ymweliad gan asiant gorfodi ag eiddo'r dyledwr.

Tabl 2. Camau casglu dyledion gan Asiantau Gorfodi CIVEA, Ebrill 2014 - Ebrill 2015

Ffrwd ddyledion (a nifer y gwarantau)*	% o'r holl achosion a setlodd	% o'r achosion a setlodd yn y cam cydymffurfio	% o'r achosion a setlodd yn y cam gorfodi	% o'r achosion a setlodd yn y cam gwerthu
Treth y Cyngor (660,000)	23%	41%	58%	1%
Ardrethi annomestig (57,000)	31%	23%	74%	3%

Dirwyon traffig ffyrdd (491,000)	31%	38%	59%	3%
Pob ffrwd ddyledion (1,209,000)	27% (322,000)	38% (123,000)	60% (192,000)	2% (6,000)

* Wedi eu talgrynnu i'r 1,000 agosaf

Ar gyfer Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys, cafodd y cyfraddau setlo yn y cam cydymffurfio eu darogan ar sail wahanol – fel canran o'r holl ddyledion a dderbyniwyd yn lle fel canran o'r dyledion a setlodd. Dengys Tabl 3 y darogan y byddai 1% o'r holl ddyledion a dderbyniwyd yn setlo yn y cam cydymffurfio, ond dengys y data a dderbyniwyd fod 10% o'r holl ddyledion wedi setlo yn y cam cydymffurfio (sy'n 31% o'r holl ddyledion a setlodd). Ar gyfer y grŵp hwn, roedd yn anodd darogan nifer yr achosion sy'n setlo yn y cam cydymffurfio oherwydd, yn draddodiadol, arferai Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys â symud ymlaen yn syth at feddiannu nwyddau heb ofyn am dâl i ddechrau. Gallai hyn egluro'n rhannol y gwahaniaeth rhwng y darogan a'r realiti, ond cyfeiriodd Asiantau Gorfodi'r Uchel Lys a'r asiantau gorfodi sifil hefyd at eu buddsoddiad trwm i geisio gwella cydymffurfio, er enghraifft drwy sefydlu canolfannau galwadau a throsglwyddo eu hymdrechion o ymweliadau stepan drws i'w gwneud yn haws i bobl dalu'n gynt.

Tabl 3. Camau setlo dyledion ar gyfer Asiantau Gorfodi'r Uchel Lys, Ebrill 2014 – Ebrill 2015*

	% a setlodd yn y cam cydymffurfio	% a setlodd yng ngham gorfodi 1**	% a setlodd yng ngham gorfodi 2**	% a setlodd yn y cam gwerthu	% a setlodd
Data HCEOA	10%	10%	11%	2%	33%
Darogan yr Adolygiad o'r Strwythur Ffioedd Gorfodi	1%	6%	12%	2%	21%

* Ar sail data a dderbyniwyd ar tua 32,000 o writiau'r Uchel Lys – gan gynnwys rhai nad oedd wedi setlo pan gasglwyd y data.

** Fel y disgrifir yn Atodiad A, mae Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys yn rhannu'r cam gorfodi'n ddwy ran.

4.7. Ffioedd a godir

Mae'r diwygiadau'n fath o reoleiddio marchnad er mwyn lleihau rhai mathau o ymddygiad ond cymell mathau eraill o ymddygiad. Gan hynny rhaid i'r diwygiadau – yn enwedig y strwythur ffioedd – daro cydbwysedd rhwng talu digon fel bo'r asiantaethau'n gallu rhedeg busnes proffidiol ond heb wobrwyo'r diwydiant yn ormodol ar draul y dyledwyr.

4.7.1. Ffioedd cyfartalog

Cafodd gwiriad bras o ffioedd cyfartalog ei wneud i asesu unrhyw wahaniaeth mawr rhwng y ffioedd oedd wedi'u darogan wrth lunio'r strwythur ffioedd. Dim ond ar gyfer Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys yr oedd yn bosib gwneud hyn oherwydd roedd data gyda mwy o 'lo mân' ar gael i'w ddadansoddi. Dengys Tabl 4 (isod) y ffioedd cymedrig a chanolrifol o ddata'r Uchel Lys, a'r ffioedd darogan cymedrig.

- Y ffi gymedrig yw swm y ffioedd wedi'i rannu â nifer yr achosion. Er eithrio nifer fach o ddyledion gwerth uchel iawn o'r gwiriad fel 'allanolion', mae'r cymedrig yn dal wedi'i chwyddo gan achosion gwerth uchel. Mae'r cymedrig felly'n rhoi mesur o'r referniw cyfartalog ar draws yr holl achosion ond nid yw'n arwydd da o'r ffi arferol a fyddai'n cael ei chodi ar ddyledwr.
- Y canolrif yw'r ffi a godir ar gyfer y pwynt data canol, pan drefnir yr achosion yn ôl gwerth y ddyled. Mae'r canolrif wedi'i sgiwio llai gan werthoedd eithafol ac yn rhoi mesur gwell o'r ffi arferol a godir ar ddyledwr unigol.

Dengys y tabl isod y ffioedd cyfartalog cymedrig ar gyfer dyledion sy'n setlo, ac ar gyfer cyfanswm yr achosion. Ar gyfer cyfanswm yr achosion, mae'r ffi gyfartalog yn agos iawn i'r ffi ddarogan (£222 o'i gymharu â £233), ond ar gyfer dyledion sy'n setlo (yn cael eu cau ar ôl talu'n llawn neu'n rhannol), mae'r ffi gyfartalog yn llai na hanner y ffi ddarogan (£515 o'i gymharu â £1,100). Er y gallai hyn awgrymu nad yw asiantau gorfodi'n ennill y referniw yr oedd disgwyl iddynt ei ennill, mae'r gwahaniaeth i bob golwg wedi digwydd yn bennaf oherwydd y llwyddiant uchel gyda gorfodi gwarantau yn y cam cydymffurfio (Tabl 3). Mewn geiriau eraill, mae mwy o warantau'n cael eu gorfodi'n llwyddiannus ac yn setlo'n gynt pan fo'r ffioedd a godir yn is. Mae hyn yn unol â bwriadau'r diwygiadau, ac yn ôl yr adborth gan Asiantau Gorfodi'r Uchel Lys mae'r referniw – at ei gilydd – yn eithaf tebyg. Fel y soniwyd eisoes, mae gan y data

gafeatau o ran cyflawnder, ac ar gyfer dadansoddi'r ffioedd dim ond dyledion Uchel Lys sydd wedi'u cynnwys hyd yma.

Tabl 4. Ffioedd cyfartalog a gasglwyd gan Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys, Ebrill 2014 – Ebrill 2015

Ffioedd ar gyfer yr holl achosion a setlodd			Ffioedd ar gyfer yr holl warantau		
Cyme drig	Canolrif	Cymedrig darogan	Cymedr ig	Canolrif	Cymedrig darogan
£515	£292	£1,100	£222	£75	£233

4.7.2. Alldaliadau

Mae'r diwygiadau wedi cyfyngu'r mathau o alldaliadau y gall asiantau gorfodi eu codi er mwyn ceisio gwarchod dyledwyr rhag talu ffioedd diangen a gormodol. Dim ond alldaliadau ar gyfer seiri cloeau, ffioedd llys, ffioedd storio a ffioedd ocsiwn y gellir eu codi. Roedd archwiliad manwl o alldaliadau y tu hwnt i sgôp yr adolygiad blwyddyn, ond ar gyfer achosion a orfodwyd gan asiantau gorfodi sifil, codwyd alldaliadau yng nghyswllt tua 0.4% o'r gwarantau a setlodd. Ar gyfer Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys, roedd alldaliad wedi'i godi yng nghyswllt tua 4% o'r gwarantau a setlodd.

4.7.3. Talu dyledion yn uniongyrchol

Un mater a godwyd gan asiantau gorfodi yw bod dyledwyr weithiau'n derbyn cyngor anghywir (yn bennaf ar y we) i dalu eu credydwr yn uniongyrchol ar ôl derbyn rhybudd bod y broses orfodi wedi cychwyn, er mwyn ceisio osgoi ffioedd gorfodi. Yn y sefyllfa hon, dylai'r credydwr dalu'r ffi gydymffurfio i'r asiant gorfodi allan o daliad y dyledwr gyda'r diffyg yn parhau i fod yn ddyledus. Os yw'r ddyled wedi cyrraedd y cam gorfodi, mae'n dod yn fwy cymhleth oherwydd mae'r ffi orfodi'n cael ei thalu pro rata allan o'r swm sy'n cael ei ad-dalu. Mae hyn yn rhoi baich gweinyddol ar yr Awdurdod Lleol oherwydd rhaid iddynt wahanu'r ffioedd a bydd rhan o'r ddyled yn parhau i fod angen ei gorfodi.

Er mai ateb syml i'r broblem hon fyddai gwrthod taliadau uniongyrchol, mae gan lawer o Awdurdodau Lleol systemau nad ydynt yn caniatáu i daliad gael ei wrthod, yn enwedig pan fydd y ddyled yn cael ei thalu ar-lein. Dywedodd rhai staff fod y baich ychwanegol o ddelio gyda hyn yn cyfateb i un aelod o staff llawn amser.

5. Casgliadau

Mae gweithredu gan asiantau gorfodi wedi, ac yn debygol o barhau i fod yn bwnc hynod ddadleuol. Nid yw'n brofiad dymunol i ddyledwyr a byddai'n afrealistig disgwyl i rai sy'n wynebu gorfodi ddweud eu bod yn fodlon iawn gyda'r broses. Mae pobl gyda phroblemau dyled yn cynrychioli sbectrw m eang o gymdeithas, o rai sy'n dioddef o ganlyniad i amddifadedd, tloidi neu amgylchiadau eraill, i rai sy'n fwriadol yn gwrthod talu am nwyddau a gwasanaethau a ddefnyddiwyd ganddynt. Mae rhai sy'n wynebu camau gorfodi mewn sefyllfa anodd oherwydd pobl eraill sydd arnynt arian iddynt ac na thalwyd yn ôl iddynt. Rôl llywodraeth yw cydbwysu anghenion credydwyr – llawer ohonynt yn unigolion, busnesau bach a chyrff cyhoeddus sydd angen proses gyfreithiol effeithiol i droi ati er mwyn adennill arian sy'n ddyledus iddynt - a chefnogi dyledwyr sy'n cael trafferth talu oherwydd cyni neu am eu bod yn agored i niwed neu'n ddiodefyr eu hunain.

O gofio hyn, mae'r diwygiadau wedi cyflwyno rheoliadau ychwanegol sylweddol ar y broses orfodi ac ymddygiad yr asiantau eu hunain, ond hefyd yn creu cymhelliad i rai sy'n wynebu gorfodi i setlo a thalu eu dyled heb orfod talu ffioedd anghymesur. Dyluniwyd y diwygiadau i helpu pobl i ddeall eu hawliau a dod o hyd i ffynonellau cyngor a chymorth, ond sicrhau hefyd nad yw dyledwyr yn gallu osgoi eu cyfrifoldebau ychwaith.

Fel y gwelwn drwy'r adroddiad, mae sawl agwedd ar y diwygiadau'n dal i wreiddio ar ôl blwyddyn. Yn benodol y prosesau hyfforddi ac ardystio newydd, a gymrodd beth amser i'w gweithredu ac sydd ers hynny wedi cael eu gwella a'u cyweirio. Mae ymwybyddiaeth gyffredinol o'r diwygiadau hefyd yn cynyddu, sy'n debygol o effeithio ar ymddygiad dyledwyr, er enghraifft wrth rannu profiadau yn y gymuned.

Prif bwrpas yr adolygiad blwyddyn oedd adnabod unrhyw ganlyniadau anfwriadol sylweddol sy'n gofyn bod angen diwygio'r ddeddfwriaeth. Nid yw'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen gwneud newidiadau o'r fath ar y pwynt hwn gan ddangos bod y diwygiadau eisoes wedi creu nifer o fanteision. Yn benodol o ran safoni a thryloywder sy'n rhoi mwy o eglurder ar lefel y ffioedd, y prosesau a ddefnyddir a ble i fynd am gyngor. O ganlyniad i'r gwelliannau, mae mwy o bobl yn cysylltu â'r asiantaethau cynghori perthnasol i ofyn am gyngor yn gyffredinol ac i gwyno os nad yw asiantau'n cydymffurfio. Gallai diffinio'n gliriach beth yw ymddygiad ymosodol a pha hawliau sydd gan ddyledwyr arwain at fwy o gwynion blinderus ond hefyd helpu dyledwyr i adnabod enghreifftiau gwirioneddol o ymddygiad amhriodol.

Yn ôl canfyddiadau o'r sector cynghori, mae cynghorwyr a dyledwyr yn dal i ystyried bod rhai asiantau'n ymddwyn yn ymosodol, ac weithiau'n groes i'r rheoliadau. Er na ellir cyffredinolir

canfyddiadau, maen nhw'n awgrymu arferion anghyson rhwng ac o fewn asiantaethau. Byddwn yn rhoi sylw manwl i ffynonellau data pellach ar nifer a natur y cwynion er mwyn deall mwy am ymddygiad asiantau gorfodi ac ymddygiad dyledwyr sy'n wynebu'r broses orfodi.

O ran y strwythur ffioedd, mae data gan yr asiantaethau gorfodi'n awgrymu bod gorfodi ar y cyfan yn fwy effeithiol a bod cyfran fwy o ddyledion na'r disgwyl yn cael eu gorfodi'n llwyddiannus bellach. Mae Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys wedi llwyddo'n arbennig o dda i orfodi yn y cam cydymffurfio, gan ragori ar ddisgwyliadau o naw pwynt canran (roedd disgwyl i 1% o'r holl warantau a gyflwynwyd setlo yn y cam hwn, ond llwyddwyd i setlo 10%). Mae mwy o warantau bellach yn cael eu gorfodi'n llwyddiannus, a'u setlo'n gynt, fel bo'r ffi gyfartalog a godir ar ddyledwyr bellach yn is na'r disgwyl.

Ar gyfer asiantau gorfodi sifil, mae gorfodi yn y cam cydymffurfio wedi bod yn is na'r disgwyl (gyda 38% o warantau a orfodwyd yn llwyddiannus yn setlo yn y cam cydymffurfio, o'i gymharu â darogan 50%). Gallai'r gwahaniaeth rhwng asiantau gorfodi sifil a rhai'r Uchel Lys yn hyn o beth fod yn rhannol oherwydd bod darogan yn gywir wrth ddylunio'r diwygiadau'n anodd, ond disgwyliwn i orfodi yn y cam cydymffurfio wella i'r grŵp hwn wrth i'r diwygiadau wreiddio.

Atodiad A: Ffioedd asiantau gorfodi

Tabl 5. Ffioedd a godir gan asiantau gorfodi sifil (nid rhai sy'n casglu dyledion yr Uchel Lys) ym mhob cam.

Cam yn y broses	Camau Gweithredu	Ffi benodol	Ffi ganran (dros £1500 yn unig)
Cydymffurfio	Cyflwyno rhybudd gorfodi'n gofyn am dalu'r ddyled. Rhaid rhoi saith diwrnod clir (ac eithrio dydd Sul a gwyliau banc) ar gyfer setlo cyn symud ymlaen at y cam gorfodi.	£75	0 y cant
Gorfodi	Ymweld â chartref neu eiddo busnes y dyledwr i gymryd meddiant o nwyddau, gan gynnwys popeth yn ymwneud ag adnabod, prasio a chymryd meddiant o'u heiddo.	£235	7.5 y cant
Gwerthu	Symud o'r eiddo a gwerthu'r pethau a gymerwyd yn y cam blaenorol.	£110	7.5 y cant

Yn ogystal â'r ffioedd hyn, gall asiantau hefyd godi alldaliadau am gostau a achosir yn rhesymol, gan gynnwys ffioedd storio, ffioedd seiri cleau, ffioedd ocsiwn a ffioedd gwneud ceisiadau i'r llys.

Yn ystod dylunio'r strwythur ffioedd, derbyniwyd bod y gost o fynd i'r Uchel Lys i geisio adennill dyled fel arfer yn uwch nag wrth geisio adennill dyledion eraill oherwydd cymhlethdod yr achosion, dyledion mwy ac atebolrwydd cyfreithiol Swyddog Gorfodi'r Uchel Lys¹⁸. Er bod strwythur ffioedd yr Uchel Lys fwy neu lai'r un fath â strwythur yr asiantau gorfodi sifil, adlewyrchir y gwahaniaethau hyn gan strwythur ffioedd fymryn yn wahanol a cham gorfodi ychwanegol, fel y gwelwn isod:

Tabl 6. Ffioedd a godir gan Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys ym mhob cam.

¹⁸ Cyflwynir y ddatl fanwl ym mhennod 7 o'r *Review of Enforcement Fees* (tud. 41-51) yn https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-bailiff-action/supporting_documents/enforcementfee%20structurereview.pdf

Cam yn y broses	Camau Gweithredu	Ffi benodol	Ffi ganran (dros £1000 yn unig)
Cydymffurfio	Cyflwyno rhybudd gorfodi'n gofyn am dalu'r ddyled. Rhaid rhoi saith diwrnod clir (ac eithrio dydd Sul a gwyliau banc) ar gyfer setlo cyn symud ymlaen at y cam gorfodi.	£75	0 y cant
Cam gorfodi cyntaf	Os yw'r dyledwr yn dod i gytundeb nwyddau a reolir gyda'r asiant gorfodi ac yn cadw at y taliadau a gytunwyd, dyma'r unig ffi cam gorfodi y bydd angen ei thalu. Mae'n cynnwys popeth o'r ymweliad cyntaf â chartref y dyledwr hyd nes y cwblheir y cytundeb neu hyd nes y bydd yn cael ei dorri.	£190	7.5 y cant
Ail gam gorfodi	Os nad yw'r dyledwr yn dod i gytundeb nwyddau a reolir gyda'r asiant gorfodi, neu'n methu â chadw at y taliadau a gytunwyd, rhaid iddynt dalu'r ffi hon ar ben ffi'r cam gorfodi cyntaf. Mae'n cynnwys ymweld â chartref neu eiddo busnes y dyledwr i gymryd meddiant o nwyddau, a phopeth yn ymwneud ag adnabod, priso a chymryd meddiant o eiddo'r dyledwr.	£495	0 y cant
Gwerthu	Symud o'r eiddo a gwerthu'r pethau a gymerwyd yn y cam blaenorol.	£525	7.5 y cant